



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

14/06/2022

Diolch o galon i gydweithwyr a fu'n gweithio yn ystod penwythnos Jiwbilî Platinwm y Frenhines, ac i'r rhai ohonoch a gafodd gyfle i fwynhau amser i ffwrdd dros Wyl y Banc, gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathliadau. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r rhai a fu'n rhan o'r gwaith cynllunio y tu ôl i'r llenni yn ystod y cyfnod cyn penwythnos y Jiwbilî i sicrhau ein bod yn hollol barod ar lefel weithredol.

Ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau gan gynnwys cynnwys y Ffaglau, partïon te y Jiwbilî ac ymweliad brenhinol gan Ddug a Duges Caergrawnt. Gyda llawer mwy o bobl yn y ddinas, a'r angen am gapasiti ychwanegol, roeddem yn rhagweld mwy o alw ar ein gwasanaethau a gweithiodd ein timau ar y cyd i sicrhau bod pawb yn ddiogel ac yn iach yn ystod y penwythnos hir.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n cydweithwyr yn Heddlu De Cymru a'n partneriaid awdurdod lleol am ein cadw ni i gyd yn ddiogel ac am sicrhau bod gan y cyhoedd y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a oedd yn digwydd.

Yn rhifyn yr wythnos hon o Cyswllt y Prif Weithredwr, rwy'n rhannu rhai o uchafbwyntiau ein cydweithwyr a'n cleifion a fu'n dathlu mewn steil diolch i'r blychau Jiwbilî a ddarparwyd gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Roedd yn wych gweld yr

holl luniau ohonoch chi'n dod at eich gilydd i fwynhau'r dathliadau. Roeddem yn falch o ychwanegu at y dathliadau trwy oleuo Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandocho mewn porffor yn ystod yr wythnos a oedd yn wych i'w weld.

Yn ogystal, gwahoddwyd nifer o gydweithwyr i fynychu'r Garddwestau Brenhinol ym Mhalas Buckingham, gan ymuno â gwesteion o wasanaethau cyhoeddus eraill, elusennau ac aelodau o gymunedau lleol, gyda phob un ohonynt wedi cael effaith aruthrol o ganlyniad i'w gwaith. Maent wedi rhannu rhai o'r lluniau cofiadwy gyda ni isod.





Crynodeb o'r Jiwbilî Platinwm

Cydweithwyr a gafodd gydnabyddiaeth yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines

Llongyfarchiadau i'r Athro Aled Phillips a'r Athro Julian Sampson a dderbyniodd wobrau Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE) fel rhan o Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Cafodd yr Athro Aled Phillips ei gydnabod am ei wasanaethau i Feddygaeth Arennol a'r Athro Julian Sampson am ei wasanaethau i Eneteg Feddygol. Diolch i chi'ch dau am yr holl waith hanfodol rydych chi wedi'i gyflawni yn eich priod feysydd i wella gwasanaethau gofal iechyd i'n poblogaeth.

Dyfarnwyd MBE haeddiannol iawn i chwaraewr pêl-droed rhyngwladol Cymru, Gareth Bale, a roddodd gyfraniad anhygoel i'r Elusen Iechyd yn ystod y pandemig, am ei wasanaeth i bêl-droed ac elusen.

Da iawn i'r holl gydweithwyr a ffrindiau o bob rhan o ofal iechyd a sectorau cyhoeddus a gafodd eu henwi yn yr Anrhydeddau eleni.

Garddwestau Palas Buckingham

Fel y dywedais o'r blaen, enwebwyd nifer o gydweithwyr i fynychu Garddwest ym Mhalas Buckingham fel rhan o ddatiliadau'r Jiwbilî Platinwm, ac mae rhai o'r rhai a wahoddwyd wedi rhannu eu lluniau gyda ni o'r diwrnod

mawr. Llongyfarchiadau a DIOLCH i bob un ohonoch a gafodd eich enwebu a'ch gwahodd i'r achlysur arbennig hwn i gydnabod eich cyfraniadau rhagorol.

Roedd y rhai a fynychodd yn cynnwys:



Derbyniodd Abraham Theron wahoddiad i gydnabod ei gyfraniad i Ofal Amdriniaethol fel Cyfarwyddwr Clinigol.



Mae Carly Simpson yn Uwch Nyrs ar gyfer ein Bwrdd Clinigol Meddygaeth. Yn 2021, roedd Carly yn rhan o dîm o Uwch Nyrsys a enillodd wobwr am eu harweinyddiaeth ysbrydoledig.



Gan roi cleifion ac eraill o'i flaen ei hun yn gyson yn ystod ei 32 mlynedd gyda'r Bwrdd Iechyd, gwahoddwyd y Saer Gareth Evans i gydnabod ei ddull gofalgar a thosturiol, gan ddangos ein gwerthoedd i'r lefel uchaf.



Cafodd Sue Bailey ei chydabod am ei chyfraniad eithriadol i'r sefydliad yn ei rôl fel Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol dros Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf ar gyfer Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol.



Cafodd Nicky Bevan, Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol, ei chydabod am sicrhau bod pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i alluogi i gynnal ei iechyd a'i les yn y gweithle.



Derbyniodd ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Fiona Kinghorn, ei gwahoddiad am arwain ein hymateb iechyd y cyhoedd i'r pandemig.



Hefyd yn y Palas oedd cyn-Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Graham Shortland, ar ôl derbyn OBE yn ystod y pandemig am wasanaethau i Bediatreg, Diogelwch Cleifion a'r GIG yng Nghymru.

Partïon Te Mawr y Jiwbilî

I nodi'r Jiwbilî Platinwm, anfonodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro 80 o flychau Jiwbilî i wardiau cleifion mewnol ar draws safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd y blychau yn cynnwys balŵns, baneri, pecynnau gweithgaredd gan Mental Health Matters a Chystadleuaeth Cacennau Platinwm, toriad cardfwrdd o'r Frenhines, a chacennau a roddwyd gan Memory Lane Cakes, Tesco a Morrisons.

Rhwng 2 a 5 Mehefin, cawsom lwyth o luniau gan gleifion a staff yn eu dangos yn mwynhau'r dathliadau. Mae'n hyfryd gweld sut y gwnaeth yr Elusen Iechyd hybu morâl cleifion a thimau ac annog iechyd meddwl a lles cadarnhaol gyda'u blychau Jiwbilî. Gwnaeth llawer o wardiau ehangu

ar ddigwyddiad Te Mawr y Jiwbilî a threfnu bwffe mawr i gyd-fynd â'r addurniadau a ddosbarthwyd. Roedden nhw i gyd yn edrych yn hollol flasu!

Isod ceir cipolwg ar y partïon te a gynhaliwyd o amgylch safleoedd y Bwrdd Iechyd.



Ymweliad Gweinidog ag Ysbyty Athrofaol Cymru

Yr wythnos diwethaf, gwnaethom groesawu Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Ysbyty Athrofaol Cymru i ddysgu mwy am y rhaglen Llundain Ein Hysbytai i'r Dyfodol, a'n huchelgeisiau ar gyfer trawsnewid gofal yng Nghymru.



Treuliodd y Gweinidog amser yn cwrdd â chydweithwyr yn yr Uned Argyfwng, Gofal Critigol a Ward B1 Cardiolleg.

Gwn fod y Gweinidog o'r farn bod yr ymweliad yn werthfawr iawn, ac roedd yn ddiolchgar i bawb am gymryd rhan yn y trafodaethau, gan rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ogystal â'u meddyliau am y dyfodol. Roedd hi'n awyddus i ddiolch i bob un a ddaeth ar eu traws am y gwaith caled a'r ymrwymiad a ddangoswyd ganddynt yn ystod yr ymateb i'r pandemig a hoffai rannu ei diolch gyda'r holl gydweithwyr.



Mae gennym lawer o waith meddwl a chynllunio i'w wneud i sicrhau bod cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol yn diwallu anghenion disgwylidig, yn cefnogi datblygiadau mewn ymarfer a thechnoleg, yn creu amgylcheddau therapiwtig ac yn galluogi cydweithwyr i weithredu i'w llawn botensial mewn amgylchedd sy'n addas i'r 21ain ganrif.

Bydd gweithio ar y cyd i greu cynllun credadwy a chyraeddadwy yn rhan bwysig o gyflawni hyn, ac er mwyn gwneud hynny mae angen eich help arnom i lywio'r gwaith meddwl, a chyfrannu eich gwybodaeth, eich profiad a'ch uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Mae nifer o weithdai ar y gweill fel rhan o lif gwaith Llundain ein Gwasanaethau Clinigol o dan arweiniad Dr Navroz Masani, yr AMD ar gyfer Strategaeth Glinigol, a'r tîm, a bûm yn ddigon ffodus i fynyachu dechrau un o'r sesiynau hynny yr wythnos diwethaf. Mae'r gweithdai'n creu cyfle gwych i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol a byddwn wir yn annog pawb i gymryd rhan pan ddaw'r cyfle.

Trawsnewid gofal wedi'i gynllunio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Wrth i ni barhau i ailddechrau gwasanaethau a gafodd eu gohirio o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal wedi newid i sicrhau ein bod yn cadw cleifion a chydweithwyr yn ddiogel. Er mwyn lleihau amseroedd aros a gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ymhellach, mae angen dull newydd i ailgynllunio'r ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu ledled Cymru.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i roi £170 miliwn yn ychwanegol i gefnogi'r cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio newydd, [Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd a Lleihau Rhestrau Aros](#). Yn y cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio ledled y wlad yn cael eu hailosod a'u trawsnewid drwy dynnu sylw at saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethu diagnosis cynnar a thrin cleifion lle'r amheuir canser, lleihau anghydraddoldebau iechyd a meithrin capasiti cynaliadwy ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Ochr yn ochr â'r cynllun, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi [offeryn data amseroedd aros sy'n nodi'r gwahanol amseroedd aros fesul bwrdd iechyd](#).

Mae'r cynllun hwn yn ein galluogi i barhau i ailgynllunio'r ffordd yr ydym yn darparu gofal wedi'i gynllunio a chefnogi'r prosiectau arloesol sydd eisoes yn cael eu datblygu gan y tîm Adfer ac Ailgynllunio. Wrth i ni symud allan o'r pandemig, bydd dull y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ddod â'r holl gapasiti ac adnoddau gweithredol ynghyd, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan Adfer ac Ailgynllunio,

o dan Un Cynllun Gweithredol. Bydd hyn yn cynnwys creu grwpiau cyflawni sy'n arwain yn glinigol a fydd yn dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd, yn olrhain cynnydd, yn hybu gwelliannau ansawdd ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau allweddol a amlinellir yng nghynllun adfer gofal wedi'i gynllunio Llywodraeth Cymru.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein dull trwy glicio [yma](#). Os oes gennych syniadau ynghylch sut y gall eich gwasanaeth wella gofal i gleifion, cysylltwch â ni drwy e-bostio cav.recoveryandredesign@wales.nhs.uk.

Dysgu mwy am yr Hyb Lles arfaethedig yn Park View

Yr wythnos hon, gwahoddir trigolion lleol i fynychu cyfres o sesiynau gwybodaeth galw heibio am yr Hyb Lles arfaethedig yn Park View. Bydd cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Meddygfa Westway a Chanolfan Iechyd Park View, yn ogystal â phenseiri a'r contractwr penodedig. Yn y sesiynau, bydd preswylwyr yn gallu dysgu mwy am y cynlluniau a gofyn cwestiynau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru gyda chynlluniau ar gyfer Hyb Lles newydd. Byddai'r cynlluniau arfaethedig yn golygu y byddai Hyb Lles yn cael ei adeiladu gerllaw Hyb Cymunedol Trelái a Chaerau ar Heol Orllewinol y Bont-faen ac yn cymryd lle Canolfan Iechyd Park View.

Byddai nifer o wasanaethau'n cael eu cynnal yn yr Hyb Lles arfaethedig, gan gynnwys gwasanaethau meddygol cyffredinol, deintydd cymunedol, nifer o wasanaethau iechyd cymunedol megis cymorth nyrsio ac iechyd meddwl, yn ogystal ag ystafelloedd grŵp

cymunedol a llety ar gyfer Timau Nyrsys a Bydwagedd Cymunedol lleol.

[Rhagor o wybodaeth am y sesiynau sy'n cael eu cynnal yr wythnos hon.](#)

Gwneud cais am yr Academi Lledaeniad a Graddfa

Mae un o'n rhaglenni arweinyddiaeth fwyaf cyffrous, yr Academi Lledaeniad a Graddfa, yn derbyn ceisiadau ar gyfer digwyddiad trochi tri diwrnod o hyd yng Nghaerdydd ym mis Medi.

Mae'r Academi Lledaeniad a Graddfa yn agored i holl gydweithwyr GIG Cymru yn ogystal â'r rheini yn y diwydiant, y cyhoedd a'r trydydd sector. Mae wedi'i gynllunio i roi'r offer a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i gyflawni gwelliannau ac arloesedd ar raddfa ar draws eu sefydliadau, systemau a thu hwnt. Fe'i cyflwynir mewn partneriaeth rhwng Sefydliad Calon y Ddraig a Billions Institute, sefydliad Americanaidd sy'n arbenigo mewn addysgu sut i gyflawni newid ystyrlon ar raddfa fawr.

Ym mis Mawrth eleni, cefais y fraint o fynychu digwyddiad yr Academi Lledaeniad a Graddfa i gwrdd â Becky a rhai o gyfranogwyr blaenorol yr Academi, sydd ers hynny wedi mynd ymlaen i gyflawni pethau anhygoel, fel [sefydlu lechyd Gwyrdd Cymru](#) a'r [her traceostomi realiti rhiithwir a gafodd ei harwain gan y Bwrdd lechyd yn ddiweddar](#) gyda Chanolfan Ragoriaeth SBRI a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Dysgodd Becky yr ystadegyn brawychus i ni ei fod yn cymryd, o'r dyddiad y cyhoeddir darn o dystiolaeth, tua 17 mlynedd i'r ateb hwnnw ledaenu i hyd yn oed hanner y boblogaeth a allai elwa ohono.

Un o agweddau allweddol yr hyfforddiant yw ei fod yn cynnig offer ymarferol i chi arwain newid ar raddfa fawr ynghyd â thechnegau ar gyfer lleihau eich risg o orflino yn y broses: rhywbeth sy'n fwy allweddol nawr nag erioed.

Os ydych chi a'ch tîm yn gweithio ar brosiect a allai fod o fudd i fwy o bobl ar draws ein system, yna byddwn yn eich annog i wneud cais drwy fynd i'r [dudalen Lledaeniad a Graddfa](#) ar wefan Sefydliad Calon y Ddraig.

Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro Pob Ceiniog yn Cyfrif

Gall rhoi ceiniogau wneud i bethau gwych ddigwydd! A welsoch chi'r gwaith celf hwn a grëwyd yn fyw gan Nathan Wyburn yr wythnos diwethaf ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines? I gyfrannu eich ceiniogau drwy ein cynllun rhoi o'r gyflogres, ewch i: <https://healthcharity.wales/cy/gwybodaeth-am-staff/cyfrannu-ceiniogau/>

Dychmygwch pe bai gennym rywle hyfryd i fynd iddo...

Crëwyd y gwaith celf hwn gan fyfyrwyr Gweithdy Beth Morris i ddatlu lansiad y Llwybr lechyd a Lles Dolydd, sy'n cysylltu Ysbyty Athrofaol Cymru â'r dolydd ym Mharc y Mynydd Bychan. <https://cardiffandvale.art/2022/06/06/imagine-if-we-had-somewhere-lovely-to-go/>

Y Rhaglen Celfyddydau Gweithredol

Mae'r Rhaglen Celfyddydau Gweithredol yn dod â chelf i swyddfeydd y Tîm Gweithredol, gan wella'r amgylchedd a chefnogi lles staff trwy waith celf. <https://cardiffandvale.art/2022/06/07/executive-art-programme/>